Dweud eich dweud - Ymgynghoriad ar newid y Strwythur Rheoli Gwleidyddol

Mae Cyngor Sir Powys yn ystyried newid ei strwythur rheoli gwleidyddol o Fwrdd 15 Cynghorydd sy'n wleidyddol gytbwys i fodel "Trefniadau Gweithredol". Y dewis sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd yw Arweinydd a system Cabinet Gweithredol. Fodd bynnag, cyn gwneud penderfyniad ac yn unol â gofynion deddfwriaethol presennol mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer ymgynghori i gasglu barn pobl leol, cyrff a sefydliadau ym Mhowys.

Pam y mae'r Cyngor yn ystyried bod angen newid.

Ar 12 Gorffennaf 2010 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Fesur Arfaethedig Llywodraeth Leol a fydd, os daw i rym fel y'i drafftiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor o 2012 i ddod â'r system Bwrdd presennol i ben (yr hyn a adwaenir fel y model "Pedwerydd Opsiwn" neu'r model "Trefniadau Amgen") a dechrau gweithredu model "Trefniadau Gweithredol" o naill ai Arweinydd a Chabinet Gweithredol neu Faer Etholedig a Chabinet Gweithredol.

Ar wahân i'r newid tebygol yn y gyfraith mae'r Cyngor yn ystyried y dylai newid ei strwythur "Trefniadau Amgen". Mae'r Cyngor o'r farn bod amgylchiadau wedi newid ers 2002 pan ddewisodd y model presennol, gan gynnwys bod yr Awdurdod o 73 o aelodau wedi ffurfio 5 gŵp gwleidyddol gwahanol, gyda dau ohonynt bellach wedi ffurfio clymblaid.

Trwy newid i fodel "Trefniadau Gweithredol" (sy'n ffafrio'r system o Arweinydd a Chabinet Gweithredol fel y gweithredir gan 20 o'r 22 Awdurdod Unedol arall yng Nghymru) mae'r Cyngor yn ystyried y byddai hyn yn cynorthwyo i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r Awdurdod yn cael eu harfer. Byddai'n rhoi sylw i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; gan hyrwyddo sicrwydd o ran y broses gwneud penderfyniadau ac yn gyffredinol sicrhau fod penderfyniadau'r Awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

Mae'r Cyngor o'r farn y byddai cyflwyno'r newid o fis Mai nesaf, yn rhoi cyfle i'r system newydd setlo cyn yr etholiadau lleol yn 2012.

Y Strwythur sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd gan y Cyngor Sir Powys

Ers cyflwyno'r modelau strwythur rheoli gwleidyddol presennol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn 2002 fel y nodwyd uchod mae Cyngor Sir Powys wedi gweithredu'r strwythur "Trefniadau Amgen" trwy Fwrdd o 15 Cynghorydd sy'n wleidyddol gytbwys.

Yn ogystal, mae gan Bowys ar hyn o bryd 4 pwyllgor craffu a phwyllgorau ar gyfer cynllunio, trwyddedu, hawliau tramwy, cyflogaeth, archwilio a phensiynau a buddsoddiadau. Nid ydym yn rhagweld y byddai newid yn y strwythur rheoli gwleidyddol i'r model Arweinydd a Chabinet dyweder, yn golygu unrhyw newid sylweddol yn y pwyllgorau eraill hyn, er y gallai newidiadau ddigwydd ar ôl i'r Mesur ddod i rym. Yn y tymor byr (o fewn ychydig fisoedd mae'n debyg) byddai'n rhaid i'r Pwyllgor (Ardal) Rhanbarthol ar gyfer Sir Drefaldwyn gael ei ddisodli gan 2 bwyllgor ardal ond gallai newid yn ôl i un Pwyllgor unwaith eto pe bai'r Mesur, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn dod i rym yn 2012.

Y dewisiadau o ran y modelau rheoli gwleidyddol

Pe bai'r Mesur a gyflwynwyd gan LlCC yn dod i rym, fel y'i drafftiwyd, bydd yn dileu nid yn unig y system Bwrdd "Trefniadau Amgen" a weithredir ar hyn o bryd gan y Cyngor Sir, ond hefyd un o'r tri model "Trefniadau Gweithredol" (Maer Etholedig a Rheolwr y Cyngor). Byddai hyn yn golygu mai dim ond un o ddwy system rheoli wleidyddol yn yr arddull "Gweithredol" y byddai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu eu gweithredu o 2012, sef: -

(A) Arweinydd a'r Cabinet Gweithredol.

Byddai'r Cyngor Sir yn penodi un o'i Gynghorwyr fel Arweinydd (fel arfer y Cynghorydd sy'n arwain y gŵp mwyaf neu glymblaid). Byddai naill ai'r Arweinydd neu'r Cyngor yn dewis ac yn penodi rhwng 2 a 9 o Gynghorwyr eraill i eistedd ar y Cabinet. Nid oes rhaid i'r Cabinet fod yn wleidyddol gytbwys. Byddai'r Arweinydd a'r Cabinet yn gyfrifol am benderfyniadau o ddydd i ddydd o fewn y polisïau a chyllidebau a gytunwyd gan y Cyngor. Gallai pob un o'r Cynghorwyr Cabinet hyn gael y cyfrifoldeb am faes arbennig o waith ("portffolio")

(B) Maer Etholedig a'r Cabinet Gweithredol.

Byddai'r Maer yn cael ei ethol yn uniongyrchol gan etholwyr Powys bob 4 blynedd yn yr un modd ag y mae Cynghorwyr yn cael eu hethol. Byddai'r Maer yn dewis ac yn penodi rhwng 2 a 9 o Gynghorwyr i eistedd ar y Cabinet. Nid oes rhaid i'r Cabinet fod yn wleidyddol gytbwys. Byddai'r Maer yn cael ei ethol ar ymrwymiadau maniffesto, ac felly byddai ganddo/ganddi fandad unionyrchol ar draws yr awdurdod. Y Cabinet fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r ymrwymiadau maniffesto hynny a byddai'r cynghorwyr sy'n ffurfio'r Cabinet yn derbyn portffolios yn yr un modd â model yr Arweinydd Chabinet

Byddai'r model "Maer Etholedig a Rheolwr y Cyngor" (a fyddai'n cael ei ddiddymu gan y Mesur sy'n dod i rym) yn cynnwys Maer sydd wedi'i ethol yn uniongyrchol a Rheolwr y Cyngor a fyddai'n weithiwr sydd wedi'i gyflogi gan y Cyngor ac wedi'i benodi/ei phenodi gan y Cyngor. Rôl y Maer byddai rhoi arweiniad gwleidyddol cyffredinol i Reolwr y Cyngor, yn unol ag ymrwymiadau maniffesto'r Maer a'r fframwaith polisi y cytunwyd arno gan y Cyngor. Rheolwr y Cyngor fydd yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau o ddydd i ddydd er mwyn cyflwyno a gweithredu'r fframwaith hwnnw.

Mae gan bob model bwyllgorau gorolwg a chraffu a phwyllgorau eraill sy'n delio ag ystod o swyddogaethau. Fel arfer, bydd y pwyllgorau hyn yn wleidyddol gytbwys. Gall pwyllgorau ardal hefyd fodoli.

Dewis y Cyngor

Fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor yn ffafrio'r newid i'r model Arweinydd a Chabinet ond ni fydd yn gwneud penderfyniad tan ar ôl i'r ymarfer ymgynghori ddod i ben a bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn cael eu hystyried yn llawn. Dim ond y pryd hynny y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ar b'un ai i lunio cynigion ac i geisio cymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer newid ei strwythur rheoli gwleidyddol.

Cyflwyno barn

Gall etholwyr ac unigolion eraill o Bowys sydd â diddordeb, gyflwyno eu barn ar y newid yn Strwythur Rheoli Gwleidyddol y Cyngor gan gynnwys os ydych yn ffafrio un o'r modelau uchod, ar lein yn www.powys.gov.uk neu drwy anfon e-bost i strwythur.gwleidyddol@powys.gov.uk neu drwy ysgrifennu at y sawl sydd wedi llofnodi isod yn y cyfeiriad isod.

I gael ei ystyried yn berthnasol ac i gael y sylw priodol dylai unrhyw farn gynnwys rhesymau / sail berthnasol e.e. dylid nodi pam y maent yn debygol o arwain at sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r Awdurdod yn cael eu harfer gan roi sylw i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac i sicrhau bod ei benderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

Rhaid i unrhyw sylwadau ddod i law'r Cyngor Sir erbyn dydd Iau 30 Medi 2010.

Gwybodaeth bellach

Ceir manylion pellach ar y strwythurau rheoli gwleidyddol amrywiol ar-lein yn www.powys.gov.uk neu drwy gysylltu â Gwasanaethau Democrataidd yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio 01597 826374 neu drwy anfon e-bost at strwythur.gwleidyddol@powys.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu am arweiniad neu gymorth arall (gan gynnwys cael copïau o'r hysbysiad hwn a dogfennau eraill mewn diwygiadau eraill) cysylltwch â'r Gwasanaethau Democrataidd.

Dyddiedig 19 Gorffennaf 2010.

Clarence Meredith, Cyfarwyddwr Strategol - Y Gyfraith a Llywodraethu, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys. LD1 5LG.

Powys

Have your say – Consultation on change of Political management Structure

Powys County Council is considering changing its political management structure from a politically balanced 15 Councillor Board to an "Executive Arrangements" model, with its current preference being for a Leader and Executive Cabinet system. However before making a decision and in accordance with current legislative requirements the Council is undertaking a consultation exercise to seek the views of local people, bodies and organisations in Powys.

Why the Council thinks change is required.

On 12th July 2010 the Welsh Assembly Government introduced a Proposed Local Government Measure which, If it comes into force as drafted, will from 2012 require the Council to cease operating the current Board system (known as the "Fourth Option" or the "Alternative Arrangements" model) and start operating an "Executive Arrangements" model of either Leader and Executive Cabinet or Elected Mayor and Executive Cabinet.

Irrespective of this likely change in the law the Council considers that it should, in any event, change its existing "Alternative Arrangements" structure. The Council is of the view that circumstances have changed since 2002 when it opted for the current model, including the fact that the Authority's 73 Members have formed themselves into 5 different political groups, two of whom have now formed a coalition.

By changing to an "Executive Arrangements" model (with its current preference for the Leader and Executive Cabinet system as operated by 20 of the 22 Welsh Unitary Authorities) the Council considers this would assist in securing continuous improvement in the way in which the Authority's functions are exercised, having regard to a combination of economy, efficiency and effectiveness; promote certainty around decision making and generally ensure that decisions of the Authority are taken in an efficient, transparent and accountable way.

The Council believes that by introducing the change from next May this will provide an opportunity for the new system to bed in ahead of the local elections in 2012.

The Structure which Powys County Council currently operates

Since the introduction of the current political management structure models by the Local Government Act 2000 in 2002 Powys County Council has, as indicated above, operated the "Alternative Arrangements" structure with a politically balanced 15 Councillor Board.

In addition Powys currently has 4 scrutiny committees and committees for planning, licensing, rights of way, employment, audit and pensions and Investments. It is not anticipated that a change of political management structure to, say, a Leader and Cabinet model, would result in any significant change in these other committees, although changes may occur following the Measure coming into force. In the short term (probably only a few months) the single Shire (Area) Committee for Montgomeryshire would have to be replaced by 2 area committees but could revert to a single Committee again in the event of the Measure, as currently drafted, coming into force in 2012.

The political management model options

In the event that the Measure introduced by WAG comes into force, as drafted, it will not only abolish the "Alternative Arrangements" Board system currently operated by the County Council but also one of the three existing "Executive Arrangements" models (Elected Mayor and Council Manager) thus meaning that local authorities in Wales from 2012 will only be able to operate one of two "Executive" style political management systems, which are :-

(a) Leader and Cabinet Executive.

The full County Council would appoint one of its Councillors as Leader (normally the Councillor who leads the largest group or coalition). Either the Leader or the Council would choose and appoint between 2 and 9 other Councillors to sit on the Cabinet. There is no requirement for the Cabinet to be politically balanced. The Leader and Cabinet would be responsible for day to day decisions within the policies and budgets agreed by the Council. Each of these Cabinet Councillors could be given responsibility for a particular area of work ("a portfolio")

(b) Elected Mayor and Cabinet Executive.

The Mayor would be elected directly by the Powys electorate every 4 years in the same way that Councillors are elected. The Mayor would choose and appoint 2 to 9 Councillors to sit on the Cabinet. There is no requirement for the Cabinet to be politically balanced. The Mayor would be elected on manifesto commitments and so would have a direct authority- wide mandate. The Cabinet would be charged with delivery of those manifesto commitments and the councillors who form it could be given portfolios as with the Leader and Cabinet model

The "Elected Mayor and Council Manager" model (that would be abolished by the Measure coming into force) involves a directly elected Mayor and a Council Manager who would be a paid Council employee appointed by the Council. The Mayor's role would be to give broad political guidance to the Council Manager, in line with the Mayor's manifesto commitments and the policy framework agreed by the Council. All the day to day decisions delivering and implementing that framework will be the responsibility of the Council Manager.

All models have overview and scrutiny and other committees dealing with a range of functions. These committees will usually be politically balanced. Area committees can also exist.

The Council's Preference

As indicated above, the Council has a preference to change to the Leader and Cabinet model but will not make a decision until after the consultation exercise has been completed and the views received fully considered. Only then will it make a final decision as to whether to draw up proposals and seek Welsh Assembly Government approval for a change to its political management structure.

Submission of views

Views from electors and other interested persons in Powys concerning a change to the Council's Political Management Structure including any preference for one of the above models can be submitted on line at www.powys.gov.uk or by email at political.structure@powys.gov.uk or in writing to the undersigned at the address appearing below.

To be regarded as relevant and accorded appropriate weight views should include relevant reasons/grounds e.g. indicate why they are likely to result in securing continuous improvement in the way in which the Authority's functions are exercised having regard to a combination of economy, efficiency and effectiveness and to ensure that its decisions are taken in an efficient, transparent and accountable way.

Views must be received by the County Council by Thursday 30th September 2010.

Further information

Further details relating to the various political management structures can accessed on line at www.powys.gov.uk or by contacting Democratic Services at the address appearing below or by telephoning 01597 826374 or by emailing political.structure@powys.gov.uk

Any other enquiries, guidance or assistance (including obtaining copies of this notification and other documents in other formats) should likewise be addressed to Democratic Services.

Dated 19th July 2010.

Clarence Meredith, Strategic Director – Law & Governance, Powys County Council, County Hall, Llandrindod Wells, Powys LD1 5LG.